## Testunau o TAG UG a Safon Uwch Mathemateg sy'n cael sylw yn Adran 5:

- Dehongli histogramau a diagramau eraill ar gyfer data un newidyn
- Dewis neu feirniadu technegau cyflwyno data yng nghyd-destun problem ystadegol
- Gallu glanhau data, (gan gynnwys ymdrin â data coll, gwallau ac allanolion).

## Y broblem

Sut ydych chi'n mesur perfformiad tîm yn y gemau Olympaidd?

Pe byddech yn ystyried y nifer o fedalau a enillwyd, byddai gwledydd penodol bob amser yn dod allan ar y brig: 'pwerau mawr' y gemau Olympaidd sy'n cynnwys UDA, China, Rwsia, y DU, Awstralia a'r Almaen.

Ond dychmygwch pe byddai nifer y medalau'n ystyried ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu, fel maint poblogaeth y wlad neu ei phŵer economaidd, neu faint y tîm Olympaidd mewn perthynas â'r ffactorau hyn.

Un ffordd o fesur llwyddiant y timau yw rhoi pwysoliad i bob math o fedal. Yn yr ymchwiliad hwn bydd medal aur yn cael pwysoliad o dri, medal arian yn cael pwysoliad o ddau a medal efydd yn cael pwysoliad o un.

I ymchwilio i lwyddiant Seland Newydd yng Ngemau Olympaidd Haf 2012:

a) Dewch o hyd i safle Seland Newydd ar gyfer y nifer o fedalau aur a enillwyd.
b) Dewch o hyd i safle Seland Newydd ar gyfer y nifer o fedalau arian a enillwyd.
c) Dangoswch safle Seland Newydd ar gyfer cyfanswm pwysoli'r nifer o fedalau a enillwyd.
d) Dangoswch safle Seland Newydd ar gyfer cyfanswm pwysoli'r nifer o fedalau a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth.

## Casglu data

Agorwch y llyfr gwaith '**Gemau Olympaidd yr Haf2012**' a dewis y daflen waith '**Medalau Olympaidd'**.

Mae'r nifer o fedalau mae pob gwlad wedi ennill yn y Gemau Olympaidd wedi'i gymryd o ddata medalau Gemau Olympaidd 2012 (**https://goo.gl/K1G7cA**)

**1. Pam allai rhai niferoedd o fedalau a enillwyd fesul gwlad yn 2012 fod wedi newid o'r rhai hynny a gofnodwyd yng Ngemau Olympaidd 2012?**
*Mae rhai medalau wedi'u tynnu oddi ar bobl oherwydd twyllo.*

**2. Nodwch resymau pam efallai nad yw data poblogaeth yn gywir.**
*Mae poblogaeth gwledydd yn amrywio fesul eiliad oherwydd mewnfudo, mudo, genedigaethau a marwolaethau.*

**3. Beth mae '#N/A' yn ei olygu yn y data hyn?**
*Ni wnaeth y wlad ennill unrhyw fedalau.*

**4. Cymerwyd y poblogaethau ar gyfer pob gwlad o'r data yn y ffrwd gyhoeddus ar *CIA World Fact-book*. Roedd rhaid gludo'r poblogaethau hyn yn y daflen waith '*Medalau Olympaidd*' a'u paru gyda'r gwledydd wnaeth gymryd rhan yng Ngemau Olympaidd 2012.**

| Gwlad o Lyfr Ffeithiau'r Byd y CIA | Gwlad o Olympics.org |
|---|---|
| China | Gweriniaeth Pobl China |
| De Korea | Gweriniaeth Korea |
| Moldova | Gweriniaeth Moldova |
| Ffederasiwn Rwsia | Rwsia |
| Prydain Fawr | Prydain Fawr |
| Ynysoedd y Falkland | |

**Mae'r tabl uchod yn dangos dyfyniad o'r daflen waith hon. Beth yw'r anawsterau wrth geisio paru'r gwledydd o'r CIA World Factbook gyda'r rhai hynny yn y daflen waith '*Medalau Olympaidd*'?**
*Mae enwau rhai gwledydd yn wahanol felly pan fydd y data'n cael eu sortio gallant gael eu methu.*
*Ni wnaeth rhai o'r rhain gymryd rhan yng Ngemau Olympaidd 2012.*


**5. Pa fath o ddata sydd wedi'u casglu ar gyfer yr ymchwiliad hwn?**
*Data eilaidd, gan eu bod wedi'u casglu gan rywun arall.*

**6. Pa fath o newidyn yw 'cyfanswm y medalau'?**
*Mae'r newidyn yn feintiol ac yn arwahanol.*


## Proses

Yn y daflen waith '***Medalau Olympaidd***' glanhewch y data drwy ddisodli #N/A gyda 0. Bydd hyn yn gwneud trefnu'r data yn haws.

### I ddisodli #N/A gyda 0





- Dewiswch golofnau **C** i **F**
- Yn y tab **Home** dewiswch **Find & Select**, yna **Replace**
- Teipiwch **#N/A** yn **Find what**
- Teipiwch **0** gyda **Replace with**
- **Replace All**
- **Close.**
- **Arbedwch eich gwaith**




a) **Dewch o hyd i safle Seland Newydd ar gyfer y nifer o fedalau aur a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.**

## I drefnu yn Excel




- Trefnwch y data yn ôl '**Y nifer o fedalau aur**'
- Dewiswch golofnau **A** i **H**
- Yn y tab **Data**, dewiswch **Sort**.

Efallai y bydd gan fwy nag un wlad yr un nifer o fedalau aur, felly gallai fod yn angenrheidiol ychwanegu ail lefel i'r trefnu.




- **Trefnwch yn ôl *Nifer o fedalau aur***
- Cliciwch **Add Level**
- Yna yn ôl ***Nifer o fedalau arian***
- **Trefnwch *Largest to Smallest*** ar gyfer y ddau
- **OK.**

*Mae Seland Newydd yn safle 16 ar gyfer y nifer o fedalau aur a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.*

b) **Dewch o hyd i safle Seland Newydd ar gyfer cyfanswm y medalau a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.**

*Mae Seland Newydd yn safle 19 ar gyfer y nifer o fedalau aur a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.*

c) **Dangoswch safle Seland Newydd ar gyfer cyfanswm y medalau wedi pwysoli a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.**


## Er mwyn cyfrifo'r cyfanswm y medalau wedi pwysoli a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012

- Dewiswch **G2** a theipio'r fformiwla isod i gyfrifo'r cyfanswm y pwysoli:
- =3*C2+2*D2+E2
- Dewiswch **G2** a hofran y llygoden dros gornel dde isaf y gell nes i groes fach ddu ymddangos a chliciwch **ddwywaith**.
- Bydd hyn yn copïo'r fformiwla i bob cell yn y golofn **G** lle mae rhywbeth wedi'i fewnbynnu yng ngholofn **F**.
- **Arbedwch eich gwaith**

Trefnwch y gwledydd yn ôl '**Cyfanswm y medalau wedi'u pwysoli**' i ddod o hyd i safle Seland Newydd. Os oes dwy wlad yn yr un safle, ychwanegwch ail lefel i'r trefnu, '**Nifer o fedalau aur**'. *Mae Seland Newydd yn safle 18 ar gyfer y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd yng Ngemau Olympaidd 2012.*

Nesaf, dangoswch y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd ar gyfer y 18 gwlad uchaf. Mae newidyn '**Cyfanswm y medalau wedi'u pwysoli**' yn newidyn arwahanol felly mae'n briodol plotio siart bar.


## I blotio siart bar ar gyfer y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau ar gyfer y 18 gwlad uchaf



- Dewiswch **G1** i **G19**, gan gynnwys Seland Newydd
- Dylech ddal yr allwedd Ctrl i lawr a dewis **A1** i **A19**
- Yn y tab **Insert** dewiswch **Column,** yna **Clustered Column**.

Ewch ati i ddileu'r allwedd:

- Cliciwch ar yr **allwedd** yna **delete**.




Golygu’r teitl:


- Cliciwch ar y **teitl** a theipio **Cyfanswm wedi pwysoli o Fedalau Olympaidd a enillwyd ar gyfer y 18 gwlad uchaf yng Ngemau Olympaidd 2012**
- **Enter**.

Fformatiwch y siart bar: ychwanegwch forder i’r ardal plotio:

- Cliciwch y botwm dde ar y siart
- Dewiswch **Format Plot Area**
- Dewiswch **Border Color** yna **Solid Line** a dewiswch **Black**
- Talfyrrwch enwau’r gwledydd yng ngholofn **A**
- Ychwanegwch y teitl **Amlder** i’r echelin fertigol
- Yn y tab **Layout** dewiswch **Axis Titles** yna **Primary Vertical Axis Title** yna **Vertical Title**
- Teipiwch **Amlder**
- **Enter**

- **Arbedwch eich gwaith**

Mae rhai o enwau’r gwledydd wedi’u talfyrru yn y siart bar isod.




d) **Dangoswch safle Seland Newydd ar gyfer cyfanswm y medalau wedi pwysoli a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth yng Ngemau Olympaidd 2012.**

**I gyfrifo cyfanswm pwysoli'r nifer o fedalau a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth**

- Ychwanegwch bennawd addas yn **I1**
- Mewnbynnwch y fformiwla isod yn **I2** i gyfrifo'r nifer wedi pwysoli o fedalau a enillwyd fesul miliwn o boblogaeth:

  **=G2/B2*1000000**

- Copïwch y fformiwla ar gyfer yr holl wledydd eraill
- Trefnwch yn ôl colofn **I**
- Plotiwch siart bar o'r 18 gwlad gyntaf.
- **Arbedwch eich gwaith**




*Mae Seland Newydd yn safle 4 ar gyfer y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd fesul miliwn o boblogaeth yng Ngemau Olympaidd 2012.*

## Adroddiad

**Rhowch sylwadau ar lwyddiant Seland Newydd yng Ngemau Olympaidd yr Haf 2012.**

*Mae Seland Newydd yn cael safle gwahanol gan ddibynnu ar sut mae'r tali medalau'n cael ei gofnodi.*

*Mae Seland Newydd yn:*
*Safle 16 am y nifer o fedalau aur a enillwyd*
*Safle 19 am y cyfanswm o fedalau a enillwyd*
*Safle 18 am y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd*
*Safle 4 am y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth.*
*Wrth adrodd am lwyddiant tîm mae'n bwysig nodi sut mae'r cymariaethau wedi'u gwneud.*

## Tasg Estynedig

1. Dangoswch y safleoedd ar gyfer y 10 gwlad uchaf a wnaeth gymryd rhan yng Ngemau Olympaidd yr Haf 2012 gan y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd fesul maint tîm.

2. Ymchwiliwch i lwyddiant Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2014:

   a) Dewch o hyd i safle Cymru ar gyfer y nifer o fedalau aur a enillwyd
   b) Dangoswch safle Cymru ar gyfer cyfanswm pwysoli'r nifer o fedalau a enillwyd
   c) Dangoswch safle Cymru ar gyfer cyfanswm pwysoli'r nifer o fedalau a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth.

Mae'r data yn y llyfr gwaith Excel '**Gemau Gymanwlad2014.xlsx**'.

*Mae Cymru yn:*
*Safle 13 am y nifer o fedalau aur a enillwyd.*
*Safle 9 am y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd.*
*Safle 8 am y cyfanswm wedi pwysoli o fedalau a enillwyd fesul miliwn o'r boblogaeth.*